**LLYWODRAETH CYMRU**

# GORCHYMYN GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (YR A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (YR A4060) A CHEFNFFORDD CAERDYDD I LANSANFFRAID GLAN CONWY (YR A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (DOWLAIS TOP I HIRWAUN) (FFYRDD YMYL) 2019 (AMRYWIO) (RHIF 5) 2026

***AILALINIO MYNEDFA BREIFAT A LLWYBR CYHOEDDUS I DDEFNYDDWYR HEBLAW MODURWYR PWLL GLO'R TOWER***
***NEWID STATWS TRAC MYNEDIAD CLWB RYGBI HIRWAUN***
***AILALINIO LLWYBR CYHOEDDUS I DDEFNYDDWYR HEBLAW MODURWYR FFERM WYNT HIR/44/1***
***AILALINIO LLWYBR CYHOEDDUS I DDEFNYDDWYR HEBLAW MODURWYR BAVERSTOCK I NANT HIR***
***AILALINIO LLWYBR CYHOEDDUS I DDEFNYDDWYR HEBLAW MODURWYR I LAWR DWYRAIN TAF FAWR***
***AILALINIO MYNEDFA BREIFAT FFERM GURNOS***
***AILALINIO LLWYBR CYHOEDDUS I DDEFNYDDWYR HEBLAW MODURWYR GOITRE LANE***
***AILALINIO LLWYBR CYHOEDDUS I DDEFNYDDWYR HEBLAW MODURWYR CYFFORDD DOWLAIS I'R GRONFA DDŴR***
***NEWID STATWS I LWYBR TROED NEWYDD AR HYD OCHR ORLLEWINOL CYLCHFAN DOWLAIS***

## DATGANIAD ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod priffyrdd perthnasol, yn gyfrifol am yr holl gefnffyrdd yng Nghymru. Mae'r A465 yn rhan bwysig o rwydwaith ffyrdd strategol Llywodraeth Cymru. Yr A465 yw'r prif lwybr o'r dwyrain i'r gorllewin sy'n cysylltu canolfannau diwydiannol canolbarth Lloegr a de Cymru yn ogystal â chynnig llwybr arall yn lle'r M4.

Yn dilyn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus ym mis Mawrth / Ebrill 2018, gwnaed Gorchmynion Deuoli'r A465 Rhan 5 a 6 Dowlais Top i Hirwaun gan Weinidogion Cymru ym mis Ebrill 2019. Parheir i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer ychwanegu gwerth i'r Cynllun. Mae'r Gorchmynion yn cynnwys:

**(i)** Gorchymyn Llinell 1999 a'r Gorchmynion Diwygio Llinell yw—

> "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd — Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon — Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd — Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999" fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Diwygio 2012, Gorchymyn Diwygio 2014, Gorchymyn Diwygio 2019 a Gorchymyn Diwygio 2021.

**(ii)** Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2019 a'r Amrywiad i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2020, yr Amrywiad (Rhif 2) i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Amrywiad (Rhif 3) i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Amrywiad (Rhif 4) i'r Gorchymyn Ffyrdd ymyl yw—

a) Ystyr y "Gorchymyn Ffyrdd Ymyl" yw "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019";

b) ystyr "yr Amrywiad i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl" yw "Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019 (Amrywio) 2020";

c) "Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019 (Amrywio) (Rhif 2) 2021".

d) "Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019 (Amrywio) (Rhif 3) 2023".

e) "Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019 (Amrywio) (Rhif 4) 2024".

**(iii)** Gorchymyn Prynu Gorfodol 2019 a Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol (Rhif 1) 2020 a Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol (Rhif 2) 2021 yw—

a) ystyr "y Gorchymyn Prynu Gorfodol a wnaed ar 17 Ebrill 2019" yw "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun)) 2019";

b) ystyr "y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol (Rhif 1)" yw "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun)) (Atodol) (Rhif 1) 2020".

c) ystyr "y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol (Rhif 2)" yw "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli

o’r Fenni i Hirwaun a’r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i’r Dwyrain o Abercynon i Fan i’r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun)) (Atodol) (Rhif 2) 2021”.

**(iv)** Mae’r Gorchmynion Drafft sydd bellach wedi eu cyhoeddi yn cynnwys—

a) ystyr “yr Amrywiad (Rhif 5) drafft i’r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl” yw “Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i’r Fenni (yr A465) (Deuoli o’r Fenni i Hirwaun a’r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i’r Dwyrain o Abercynon i Fan i’r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019 (Amrywio) (Rhif 5) 20--”.

**(v)** Mae’r Gorchmynion sydd wedi eu gwneud ar gyfer prosiect Deuoli’r A465 Dowlais Top i Hirwaun (y cyfeirir ato fel y “Cynllun a Gyhoeddwyd”) yn cynnwys—

a) Mae Gorchymyn Llinell 1999, Gorchymyn Diwygio (Llinell) 2019 a Gorchymyn Diwygio (Llinell) 2021 yn awdurdodi llwybr y brif gefnffordd newydd, ffyrdd ymuno ac ymadael, ffyrdd cysylltu a thynnu statws cefnffordd.

b) Mae Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (GFfY) 2019 ynghyd â’r Amrywiad (Rhif 1) i’r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2020, yr Amrywiad (Rhif 2) i’r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2021, yr Amrywiad (Rhif 3) i’r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2023 a’r Amrywiad (Rhif 4) i’r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2024 yn awdurdodi cau priffyrdd presennol (sy’n cynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau a llwybrau beicio), adeiladu a gwella priffyrdd newydd, cau mynedfeydd preifat a darparu mynedfeydd preifat newydd.

c) Byddai Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG) 2019, ynghyd â GPG Atodol (Rhif 1) 2020 a GPG Atodol (Rhif 2) 2021 yn darparu ar gyfer caffael y tir a’r hawliau sy’n ofynnol ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw’r Cynllun a Gyhoeddwyd.

Lluniwyd Datganiad Amgylcheddol a Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol o effeithiau tebygol posibl y Cynllun a Gyhoeddwyd ar y cyd â’r Gorchmynion uchod. Nid yw’r Gorchmynion drafft a gyhoeddir yn awr yn cael effaith amgylcheddol andwyol ac felly nid oes angen unrhyw atchwanegiadau i’r dogfennau amgylcheddol.

Ar ôl datblygu dyluniad y Cynllun ymhellach, mae amrywiad newydd (Rhif 5) i’r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn ofynnol i fynd i’r afael â’r canlynol:

Mae angen yr Amrywiad (Rhif 5) i’r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl ar gyfer:

1. Ailalinio Mynedfa Breifat a Llwybr Cyhoeddus i Ddefnyddwyr Heblaw Modurwyr Pwll Glo’r Tower
2. Newid statws Trac Mynediad Clwb Rygbi Hirwaun
3. Ailalinio Llwybr Cyhoeddus i Ddefnyddwyr Heblaw Modurwyr Fferm Wynt HIR/44/1
4. Ailalinio Llwybr Cyhoeddus i Ddefnyddwyr Heblaw Modurwyr Baverstock i Nant Hir
5. Ailalinio Llwybr Cyhoeddus i Ddefnyddwyr Heblaw Modurwyr i lawr Dwyrain Taf Fawr
6. Ailalinio Mynedfa Breifat Fferm Gurnos
7. Ailalinio Llwybr Cyhoeddus i Ddefnyddwyr Heblaw Modurwyr Goitre Lane

8. Ailalinio Llwybr Cyhoeddus i Ddefnyddwyr Heblaw Modurwyr Cyffordd Dowlais i'r Gronfa Ddŵr
9. Newid statws i'r llwybr troed newydd ar hyd ochr orllewinol Cylchfan Dowlais.

Nid yw tir ychwanegol na/neu hawliau ychwanegol dros dir yn ofynnol ar gyfer y newid arfaethedig hwn i'r Cynllun a Gyhoeddwyd.

Mae manylion y newidiadau arfaethedig, gan gynnwys sut maent yn cymharu â'r Cynllun a Gyhoeddwyd, wedi eu nodi isod ac wedi eu dangos ar y Planiau Safle.

Byddai'r cynigion yn yr Amrywiad (Rhif 5) drafft hwn i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn gwneud diwygiadau i Atodlenni 2, 3, 6, 8, 10 a 12 ac yn rhoi Planiau Safle 2C, 3C, 6C, 8A, 10D a 12B yn lle Planiau Safle 2B, 3B, 6B, 8, 10C a 12A. Ni fyddai effaith ar yr Atodlenni na'r Planiau Safle sydd wedi eu rhifo 1A, 4B, 5A, 7A, 9C, 11, 13, 14 a 15.

Ymwelwyd â thirfeddianwyr, partïon eraill a chanddynt fuddiant a phersonau y byddai'r newidiadau i'r Cynllun a Gyhoeddwyd yn cael effaith uniongyrchol ar eu heiddo neu eu mynedfeydd preifat neu cysylltwyd â hwy er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cynigion cyn cyhoeddi'r Amrywiad (Rhif 5) drafft i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl. Gwahoddir gwrthwynebiadau a sylwadau ar gyfer y newidiadau arfaethedig hyn i'r Cynllun a Gyhoeddwyd, fel y nodir yn yr hysbysiadau cyhoeddus.

Nid yw'r un o'r cynigion yn y Gorchymyn drafft, a ddisgrifir isod, yn arwain at newid i amcanion a gyhoeddwyd y Cynllun a Gyhoeddwyd.

**<u>CYNIGION AR GYFER AMRYWIAD (RHIF 5) DRAFFT I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL</u>**

1. **<u>AILALINIO MYNEDFA BREIFAT A LLWYBR CYHOEDDUS I DDEFNYDDWYR HEBLAW MODURWYR PWLL GLO'R TŴR (Plan Safle 2C)</u>**

Y cynnig yw cwtogi hyd mynedfa breifat Pwll Glo'r Tŵr a'r Hawl Tramwy Cyhoeddus sy'n cydfodoli â hi er mwyn osgoi croesi cwrs dŵr.

NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I ORCHYMYN FFYRDD YMYL 2019, YR AMRYWIAD I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2020, YR AMRYWIAD (RHIF 2) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2021, YR AMRYWIAD (RHIF 3) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2023 A'R AMRYWIAD (RHIF 4) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2024

Byddai angen diwygio'r GFfY er mwyn newid aliniad Priffordd Newydd 2/L a mynedfa breifat 2/4a.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWYD

Mae'r cynnig yn gwneud hyd y llwybr 30m yn llai ac wrth wneud hynny mae'n osgoi croesi cwrs dŵr ddwywaith, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol creu cwlfert.

Mae manteision y newid arfaethedig mewn perthynas â'r Cynllun a Gyhoeddwyd yn cynnwys:

- Llwybr mwy uniongyrchol
- Osgoi creu cwlfert ar gyfer cwrs dŵr yn ddiangen

## 2. NEWID STATWS TRAC MYNEDIAD CLWB RYGBI HIRWAUN (Plan Safle 2C)

Y cynnig yw newid statws Trac Mynediad Clwb Rygbi Hirwaun, oddi ar yr hen A465, o briffordd newydd i fynedfa breifat newydd.

NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I ORCHYMYN FFYRDD YMYL 2019, YR AMRYWIAD I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2020, YR AMRYWIAD (RHIF 2) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2021, YR AMRYWIAD (RHIF 3) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2023 A'R AMRYWIAD (RHIF 4) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2024

Byddai angen diwygio'r GFfY i ddileu'r Briffordd Newydd 2/N flaenorol a rhoi mynedfa breifat newydd 2/6a yn ei lle.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWYD

Nid oes unrhyw newidiadau ffisegol. Ceir newid i'r statws perchnogaeth gyfreithiol yn unig.

## 3. AILALINIO LLWYBR CYHOEDDUS I DDEFNYDDWYR HEBLAW MODURWYR FFERM WYNT HIR/44/1 (Plan Safle 3C)

Y cynnig yw addasu ychydig ar aliniad llwybr troed HIR/44/1 (3/B) er mwyn osgoi rhwystr diogelwch i'r gogledd o Windfarm Bridge a chyfuno rhan o'r llwybr troed (3/C) â'r fynedfa breifat (3/1a) ar ochr ddeheuol Windfarm Bridge.

NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I ORCHYMYN FFYRDD YMYL 2019, YR AMRYWIAD I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2020, YR AMRYWIAD (RHIF 2) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2021, YR AMRYWIAD (RHIF 3) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2023 A'R AMRYWIAD (RHIF 4) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2024

Byddai angen diwygio'r GFfY er mwyn newid aliniad Priffordd Newydd 3/B, 3/C a mynedfa breifat 3/1a.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWYD

Mae'r cynnig yn angenrheidiol er mwyn osgoi rhwystr diogelwch ar yr ochr ogleddol. I'r de, mae cyfuno'r fynedfa breifat a'r llwybr troed newydd yn ddefnydd mwy effeithlon o'r tir sydd ar gael.

## 4. AILALINIO LLWYBR CYHOEDDUS I DDEFNYDDWYR HEBLAW MODURWYR BAVERSTOCK I NANT HIR (Plan Safle 6C)

Y cynnig yw ailalinio'r llwybr i ddefnyddwyr heblaw modurwyr am hyd o oddeutu 200m i gysylltu â gwaelod arglawdd yr A465. Mae hyn yn cynnig y fantais o wneud yr ardal lliniaru amgylcheddol i'r de mor fawr â phosibl.

NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I ORCHYMYN FFYRDD YMYL 2019, YR AMRYWIAD I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2020, YR AMRYWIAD (RHIF 2) I'R GORCHYMYN FFYRDD

YMYL 2021, YR AMRYWIAD (RHIF 3) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2023 A'R AMRYWIAD (RHIF 4) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2024

Byddai angen diwygio'r GFfY er mwyn newid aliniad Priffordd Newydd 6/A.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWYD

Nid yw'r cynnig yn arwain at unrhyw newid mewn swyddogaeth ond mae'n creu mwy o le ar gyfer lliniaru amgylcheddol i'r de.

5. **AILALINIO LLWYBR CYHOEDDUS I DDEFNYDDWYR HEBLAW MODURWYR I LAWR DWYRAIN TAF FAWR (Plan Safle 8A)**

Y cynnig yw cysylltu llwybr troed 111/43 â ramp graddol, yn hytrach na'r grisiau a ddangosir yn y Cynllun a Gyhoeddwyd.

NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I ORCHYMYN FFYRDD YMYL 2019, YR AMRYWIAD I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2020, YR AMRYWIAD (RHIF 2) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2021, YR AMRYWIAD (RHIF 3) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2023 A'R AMRYWIAD (RHIF 4) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2024

Byddai angen diwygio'r GFfY er mwyn newid aliniad Priffordd Newydd 8/E.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWYD

Mae'r cynnig yn fwy uniongyrchol ac yn caniatáu gwell mynediad drwy ddileu'r angen am risiau.

6. **AILALINIO MYNEDFA BREIFAT FFERM GURNOS (Plan Safle 10D)**

Y cynnig yw ailalinio pen gorllewinol y fynedfa breifat i'r fferm i'r de i leihau'r tir a dorrir ymaith rhyngddi hi a ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A465.

NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I ORCHYMYN FFYRDD YMYL 2019, YR AMRYWIAD I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2020, YR AMRYWIAD (RHIF 2) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2021, YR AMRYWIAD (RHIF 3) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2023 A'R AMRYWIAD (RHIF 4) I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2024

Byddai angen diwygio'r GFfY er mwyn newid aliniad mynedfa breifat 10/5a.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWYD

Mae hyd y llwybr yr un fath ond mae'n cynnig y budd i'r tirfeddiannwr o beidio â thorri ymaith barsel o dir i'r de.

7. **AILALINIO LLWYBR CYHOEDDUS I DDEFNYDDWYR HEBLAW MODURWYR GOITRE LANE (Plan Safle 10D)**

Y cynnig yw gwneud i lwybr i ddefnyddwyr heblaw modurwyr newydd Goitre Lane (10/A) gydfodoli â rhan o fynedfa breifat newydd Fferm Gurnos (10/5a) o'i ben dwyreiniol yng Nghyffordd Prince Charles hyd nes y bo'n ymuno â llwybr presennol Goitre Lane i'r gorllewin.

NEWIDIADAU SY’N OFYNNOL I ORCHYMYN FFYRDD YMYL 2019, YR AMRYWIAD I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2020, YR AMRYWIAD (RHIF 2) I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2021, YR AMRYWIAD (RHIF 3) I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2023 A’R AMRYWIAD (RHIF 4) I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2024

Byddai angen diwygio’r GFfY er mwyn newid aliniad Priffordd Newydd 10/A a mynedfa breifat 10/5a er mwyn cadarnhau aliniad a chydfodolaeth y llwybrau.

CYMHARU’R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â’R CYNLLUN A GYHOEDDWYD

Mae hyd y llwybr yr un fath ond mae’n caniatáu i’r llwybr i ddefnyddwyr heblaw modurwyr gael ei symud oddi wrth y slipffordd ac oddi wrth linell cwrs dŵr sydd mewn cwlfert. Mae’n amgylcheddol well drwy gael un llwybr sy’n cydfodoli yn hytrach na dau lwybr ar wahân.

## 8. AILALINIO LLWYBR CYHOEDDUS I DDEFNYDDWYR HEBLAW MODURWYR CYFFORDD DOWLAIS I’R GRONFA DDŴR (Plan Safle 12B)

Y cynnig yw ailalinio’r llwybr i ddefnyddwyr heblaw modurwyr er mwyn adlewyrchu topograffi’r ddaear yn well ac osgoi’r angen am waliau cynnal a llethrau serth. Mae’r cynllun hefyd wedi dileu’r angen i adeiladu llwybr i ddefnyddwyr heblaw modurwyr newydd (12/C) gan y gellir cadw’r llwybr presennol.

NEWIDIADAU SY’N OFYNNOL I ORCHYMYN FFYRDD YMYL 2019, YR AMRYWIAD I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2020, YR AMRYWIAD (RHIF 2) I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2021, YR AMRYWIAD (RHIF 3) I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2023 A’R AMRYWIAD (RHIF 4) I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2024

Byddai angen diwygio’r GFfY er mwyn newid aliniad Priffordd Newydd 12/A a dileu llwybr 12/C.

CYMHARU’R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â’R CYNLLUN A GYHOEDDWYD

Mae’r llwybr y rhoddwyd cydsyniad ar ei gyfer yn gofyn am waliau cynnal a llethrau serth er mwyn ffitio’r aliniad o fewn y tir sydd ar gael. Mae’r llwybr wedi ei addasu yn dilyn y topograffi naturiol ac felly mae’n well yn amgylcheddol ac yn weledol, yn ogystal â dileu costau cynnal a chadw waliau yn yr hirdymor. Mae hefyd yn dileu’r effaith amgylcheddol o adeiladu llwybr newydd 12/C.

## 9. NEWID STATWS I’R LLWYBR TROED NEWYDD AR HYD OCHR ORLLEWINOL CYLCHFAN DOWLAIS (Plan Safle 12B)

Gan fod Cylchfan Dowlais yn parhau i fod yn rhan o’r rhwydwaith cefnffyrdd, Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y llwybr troed newydd ar yr ochr orllewinol iddi, yn hytrach na Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fel y nodwyd yn y gorchmynion gwreiddiol.

NEWIDIADAU SY’N OFYNNOL I ORCHYMYN FFYRDD YMYL 2019, YR AMRYWIAD I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2020, YR AMRYWIAD (RHIF 2) I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2021, YR AMRYWIAD (RHIF 3) I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2023 A’R AMRYWIAD (RHIF 4) I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL 2024

Byddai angen diwygio'r GFfY er mwyn newid perchnogaeth Priffordd Newydd 12/D o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i Weinidogion Cymru.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWYD

Nid oes unrhyw newidiadau ffisegol. Ceir newid i'r statws perchnogaeth gyfreithiol yn unig.